

Hetiau





Hetiau

Coiff

Cafodd yr het liain yma ei gwneud drwy dorri'r lliain ar letraws, ac roedd hynny'n helpu'r het i ffitio'n dynn.

Yn oes y Tuduriaid, byddai meddygon, cyfreithwyr, hen ddynion a phlant yn gwisgo coiff gwyn, gan glymu'r coiff o dan eu gên. Roedd y rhain wedi bod yn cael eu gwisgo drwy gydol yr oesoedd canol, ac yn Saesneg roedden nhw'n cael eu galw'n 'biggins' (o'r gair Ffrangeg béguin, sy'n golygu boned).

Doedd coiffau pobl eraill yn oes y Tuduriaid ddim yn cael eu clymu, ac roedden nhw'n cael eu gwneud o liain liw neu liain wen.

Byddai coiff yn helpu i atal llau rhag lledu, ac yn cael ei wisgo yn y gwely hefyd i helpu pobl i gadw'n gynnes. Roedd yn hawdd golchi a sychu coiff, ac roedd yn cael ei wisgo o dan het wllân er mwyn atal gwallt seimllyd rhag gwneud yr het yn frwnt. Wedyn doedd dim rhaid golchi'r het wllân mor aml.

Byddai menywod cyfoethog yn gwisgo coiff melfed, ac ar ddiwedd oes y Tuduriaid roedden nhw'n gwisgo coiffau wedi'u brodio'n hardd.



Sut rydyn ni'n gwybod am goiffau?

Disgrifiadau a darluniau mewn llawysgrifau, ac enghreifftiau mewn peintiadau, gan gynnwys: *Portread o Ddyn Barfog mewn Het Goch* gan Albrecht Dürer, 1520; *Portread o Fenyw 34 oed* gan Hans Holbein yr Ieuengaf, 1516; ei *Bortread o Jane Pemberton Small*, 1535; a'i *Bortread o fenyw mewn coiff gwyn*, 1551.



Hetiau

Het menyw

O wllân mân y mae'r het yma wedi cael ei gwneud, ac mae wedi'i leinio â sidan. Byddai'n cael ei gwisgo dros goiff lliain.

Byddai menywod cyfoethog yn gwisgo het a bathodyn arian hardd arni, a byddai gan fenywod llai cyfoethog het a bathodyn wedi'i wneud o biwter a llawer o alcam ynndo, er mwyn iddo edrych fel arian. Allai menywod tlawd ddim fforddio bathodynnau i'w hetiau nhw.



Sut rydyn ni'n gwybod am hetiau menywod?

Disgrifiadau mewn dogfennau Tuduraidd, a darluniau mewn llawysgrifau.



Hetiau

Cwfl Menyw

Byddai menywod oes y Tuduriaid yn galw cwfl gwllân fel hwn, sydd wedi'i leinio â lliain, yn foned.

Roedd menywod yn oes y Tuduriaid yn cadw eu gwallt dan orchudd, ac yn plethu eu gwallt â rhubanau. Bydden nhw'n cadw'r gwallt yn ei le â phinnau neu drwy ei glymu, er mwyn gosod eu het allanol arno â rhagor o binnau.

Llabedi yw'r enw ar y 'cynffonnau' hir yng nghefn y boned yma, a rhactalau yw'r enw ar y cynffonnau yn y tu blaen.

Byddai menywod cyfoethog iawn yn gwisgo boned â rhactalau mewn lliwiau gwahanol, a'r rheiny wedi'u brodio'n aml, weithiau ag edau aur. Roedd y rhactalau hyn yn ddrud iawn, a bydden nhw'n cael eu gosod ar flaen y cwfl â phinnau, er mwyn cael eu tynnu pan fyddai'r boned yn cael ei olchi.

Mae gan y boned yma, a fyddai wedi cael ei wisgo gan fenywod llai cyfoethog, ractalau sydd wedi'u gwnio ar y goron ac wedi'u cadw yn eu lle â botwm piwter addurnol.



Sut rydyn ni'n gwybod am gyflau?

Disgrifiadau a darluniau mewn llawysgrifau, a pheintiadau, fel *Portread Mary, Arglwyddes Guildford* gan Hans Holbein, 1527, a *Phortread Elizabeth o Iorc* gan artist anhysbys (1500 – 1503), sydd ar wefan yr Oriel Bortreadau Genedlaethol.



Hetiau

Het dyn

Mae'r het yma wedi'i gwneud o wllân, ac wedi'i leinio â sidan lliw. Cortyn o liain lliw sydd wedi'i droi â llaw yw'r addurn.

Roedd yr het yn rhan bwysig o fywyd cymdeithasol, ac yn dangos eich statws. Dim ond dynion cyfoethog iawn a allai fforddio leinin o sidan. Roedd y math yma o het â chantel yn ffasiynol iawn ac yn cael ei gwisgo yn aml ar ongl sionc o 45 gradd. Byddai rhai dynion yn addurno'r hetiau hyn â phlu a thlysau neu fathodynau.



Sut rydyn ni'n gwybod am hetiau dynion?

Disgrifiadau a darluniau mewn llawysgrifau, a pheintiadau, fel *Portread Nikolaus Kratzer* gan Hans Holbein yr Ieuengaf, 1528, a'i *Portread o De Vos van Steenwijk*, 1541.

